

O oedran ifanc iawn roedd 'Peanut' y crwban môr wedi cael ei chaethiwo mewn cylch plastig ac ni allai ddod allan ohono, ond roedd ei chorff yn parhau i dyfu o amgylch y plastig. Mae cragen crwban môr yn amddiffyn y corff ac roedd hi'n gallu byw gyda'r plastig o amgylch ei chanol am ychydig. Ond oherwydd yr anffurfiad, roedd rhai o'i horganau heb ddatblygu'n llawn. Yn 1993 fe'i daliwyd ac aeth i sw lle cafodd ei rhyddhau o'r plastig gan filfeddygon.



Pan fydd balwnau yn cael eu gollwng, byddant yn disgyn yn ôl i'r ddaear, un ai yn gyfan neu mewn darnau. Maen nhw'n ychwanegu at y sbwriel ac maen nhw'n beryglus i fywyd gwyllt sy'n meddwl eu bod yn fwyd. Ar ôl bwyta balwn gall flocio'r system dreulio ac achosi i'r anifail lwgu. Hefyd mae'r cortyn yn gallu maglu a thrapio anifeiliaid. Pe byddech yn gollwng darnau o falwn ar lawr gallech chi gael dirwy am ollwng sbwriel, ond wrth eu gadael yn rhydd - ddim eu cwmpo - nid ydynt yn cael eu cyfrif fel sbwriel dan y ddeddfwriaeth gyfredol.



**Môr o blastig! Mae sbwriel plastig yn achosi marwolaethau o fwy na miliwn o adar y môr bob blwyddyn yn ogystal â 100,000 o famaliaid morol.**

**Plastig yw 60-80% o'r holl sbwriel sy'n arnofio yn ein cefnforoedd.**



**I lawer o greaduriaid y môr, yn cynnwys crwbanod môr a dolffiniaid, mae bagiau plastig yn edrych fel sglefren fôr yn y dŵr. Mae bwyta bag plastig yn lle sglefren fôr yn blocio eu system dreulio ac yn arwain at farwolaeth.**



Mae ein moroedd yn llawn o sbwriel plastig yn arnofio. Mae Americanwyr yn unig yn taflu 2.5 miliwn o boteli plastig i'r môr bob awr.

Mewn adroddiad gan Raglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig yn 2006 amcangyfrifwyd bod 46,000 darn plastig ar gyfartaledd yn arnofio ar neu ger arwyneb pob milltir sgwâr o gefnfor.



Mae'r holl blastig a gynhyrchwyd erioed wedi cael ei gladdu mewn safleoedd tirlenwi, ei losgi a'i ddympio mewn llynnoedd, afonydd a moroedd. Wrth eu llosgi, mae'r plastigion yn rhyddhau llygryddion anfiodiraddadwy, a fydd yn anochel yn dychwelyd i'r ecosystemau morol fel gronynnau microsgopig.

Dangosodd ymchwilwyr fod microblastigion yn cael eu trosglwyddo yn y we fwyd forol. Ni all llawer o organebau plancton wahanu gronynnau plastig o'u bwyd naturiol ac felly maen nhw'n amlyncu'r plastig, ac yn ei dro bydd hwn yn cael ei drosglwyddo i fyny'r gadwyn fwyd.



Mae'r llun hwn yn dangos cynnwys stumog aderyn bach (cyw albatros) yn un o warchodfeydd morol mwyaf anghysbell y byd, mwy na 2,000 o filltiroedd o'r cyfandir agosaf. Mae cynnwys eu stumogau yn rhoi sampl 'ciplun' o lygredd plastigion o ardal fawr yng ngogledd y Cefnfor Tawel.



Yn arnofio yn ein moroedd mae degau o filoedd o filltiroedd o rwydi a leiniau pysgota. Mae'r rhain yn maglu llawer o greaduriaid y môr a gellir eu gweld o amgylch gyddfau morloi, crwbanod môr ac adar.

